LISTEN
ENGAGE
REPRESENT

WELSH ATHLETICS
ATHLETAU CYMRU

# PROFFIL SWYDD - Swyddog Cymorth Clybiau a Gwirfoddolwyr

| | |
|---|---|
| **Adrodd i** | Cydlynydd Moderneiddio Clybiau a Chyfleusterau |
| **Lleoliad** | Swydd wedi ei lleoli'n bennaf yn y pencadlys: Campws Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd, Heol Lecwydd, Caerdydd (CF11 8AZ) Mae'r rôl yn golygu gweithio dros Gymru gyfan, a theithio'n rheolaidd i'r gwahanol glybiau a rhanbarthau ledled Cymru. |
| **Patrwm gwaith** | Mae'r swydd hon yn cynnig hyblygrwydd i fod naill ai'n llawn amser neu'n rhan amser (llawn amser am 37 awr yr wythnos)<br><br>Mae patrymau gweithio hyblyg ar gael, a gall y gwaith olygu gweithio gyda'r nos yn rheolaidd/ digwyddiadau dros y penwythnos |
| **Pwrpas y swydd** | Darparu cefnogaeth weinyddol o ansawdd uchel i glybiau cyswllt, cryfhau'r seilwaith sy'n sail i athletau ledled Cymru a galluogi twf cynaliadwy yn y dyfodol. Bydd y rôl hefyd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu, cefnogi a recriwtio gwirfoddolwyr mewn clybiau i sicrhau athletau cymunedol bywiog ag adnoddau da. |
| **Rhyngwynebau allweddol** | Clybiau, Awdurdodau Lleol, Cyrff Llywodraethu Athletau Gwledydd Prydain, Staff Athletau Cymru |

## Cyfrifoldebau Allweddol

Gweinyddiaeth Clybiau

- Rheoli a chynnal porth rheoli clybiau, gan ymateb yn brydlon ac yn effeithiol i ymholiadau aelodaeth.
- Monitro safonau clybiau a mynd i'r afael yn rhagweithiol ag achosion o fethiant i gydymffurfio, gan gefnogi'r clybiau i fodloni'r disgwyliadau gofynnol.
- Cyfrannu at gynllunio a chyflwyno rhaglen ymgysylltu flynyddol ar gyfer clybiau, gan gynnwys gweminarau, fforymau, a Chynhadledd flynyddol y Clwb.
- Gweinyddu a thracio ceisiadau am gyllid gan glybiau, gan gynnwys y rhai a gyflwynir i Gronfa Moderneiddio Athletau Cymru a Chronfa Cymru Actif Chwaraeon Cymru.
- Cefnogi cyfathrebu clir ac effeithiol gyda chlybiau, yn enwedig trwy gydlynu a dosbarthu'r cylchlythyr misol.
- Cydweithio ag adrannau mewnol i adnabod cyfleoedd i leihau beichiau gweinyddol ar glybiau a gwella profiad cyffredinol yr aelodau.

Gwirfoddoli

- Cynorthwyo i weithredu Cynllun Datblygu Gweithlu Athletau Cymru mewn amgylcheddau clwb i wella gallu'r gwirfoddolwyr ac ymgysylltiad yn y tymor hir.
- Cynnal a diweddaru cronfa ddata gywir o'r holl wirfoddolwyr, gan sicrhau bod cofnodion yn ddibynadwy ac yn drefnus.

- Cynnal sianeli cyfathrebu cryf gyda'r gweithlu gwirfoddol, gan ddarparu diweddariadau, arweiniad a chefnogaeth amserol.

Cynhwysiant

- Cefnogi gweinyddu'r rhaglen Insport Clwb mewn partneriaeth â Chwaraeon Anabledd Cymru, gan helpu i hyrwyddo ac ymgorffori arferion gorau ar draws rhwydwaith y clwb.
- Gweithredu arferion cynhwysol ym mhob maes gwaith i helpu i sicrhau bod athletau'n dod yn gamp fwy hygyrch a chroesawgar i bawb.

Arall

- Rhoi diweddariadau rheolaidd i Gydlynydd Moderneiddio Clybiau a Chyfleusterau ar effaith meysydd penodol o'r rhaglen waith
- Unrhyw ddyletswyddau eraill y gallai fod eu hangen o bryd i'w gilydd, y gellir eu cynnwys o fewn cylch gwaith deiliad y swydd

**Pecyn Buddion**

| | |
|---|---|
| Cyflog | £ 26,000 y flwyddyn amser llawn |
| Cyfnod | Parhaol |
| Gwyliau | 25 diwrnod â thâl yn ogystal ag 8 diwrnod â thâl ar wyliau'r banc |
| Oriau | Mae'r swydd hon yn cynnig hyblygrwydd i weithio naill ai'n llawn amser neu'n rhan amser (llawn amser am 37 awr yr wythnos) |
| Buddion eraill | Cynllun Pensiwn y Cwmni (cyflogwr yn gwneud cyfraniad cyfatebol o hyd at 6%) |
| | 10% o'r amser yn ôl bob wythnos ar gyfer lles personol |
| | Aelodaeth Athletau Cymru |
| | Ariennir cyfleoedd hyfforddi a datblygu gyrfa |
| | Parcio am ddim ger adeilad y swyddfa |
| | Cit staff |
| Cyfnod rhybudd | 3 mis |

## Manyleb Person

Addysg, Sgiliau a Phrofiad

Byddwch yn rhywun sydd â sgiliau cyfathrebu ardderchog, sy'n gweithio'n dda mewn tîm, byddwch yn barod i dorchi'ch llewys a gwneud yr hyn sydd ei angen i roi gwasanaeth gwych i'n haelodau.

Byddwch hefyd yn/bydd gennych:

| | Hanfodol | Manteisiol |
|---|---|---|
| Diddordeb mewn Athletau yng Nghymru a gwybodaeth am y maes | ✓ | |
| Gallu teithio ledled Cymru (a Phrydain yn ôl yr angen) | ✓ | |
| Sgiliau TG, gan gynnwys defnyddio Microsoft Office, e-bost a'r rhyngrwyd | ✓ | |
| Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lafar ac yn ysgrifenedig. | ✓ | |
| Sgiliau trefnu a sgiliau gweinyddol rhagorol | ✓ | |
| Gallu datblygu a chynnal perthnasau cadarnhaol gyda phartneriaid allweddol | ✓ | |
| Gallu gweithio dan bwysau | ✓ | |
| Gallu gweithio o fewn terfynau amser | ✓ | |
| Sylw agos i fanylion | ✓ | |
| Hunan-gymhellol, blaengar a gallu gweithio ar eich menter eich hun | ✓ | |
| Gweithio'n dda mewn tîm ac yn barod i arwain | ✓ | |
| Hyblyg a pharod i addasu yn ôl y galw | ✓ | |
| Gallu ennyn brwdfrydedd ac ysgogi eraill | ✓ | |
| Siarad Cymraeg | | ✓ |
| Profiad o oruchwylio neu weithio gyda gwirfoddolwyr | | ✓ |

Nid yw'r proffil rôl hwn yn un cyflawn. Fe'i bwriedir fel dynodiad amlinellol o'r meysydd gwaith ac fe'i trafodir gyda chi a'i ddiwygio dros amser yng ngoleuni anghenion newidiol y cwmni.

## Eisiau ymuno â'n tîm?

Darllenwch y proffil rôl yn ofalus, yn enwedig yr addysg, y sgiliau a'r profiad hanfodol sy'n ofynnol er mwyn llwyddo cyn mynd i'n gwefan i gychwyn ar eich cais yn: https://www.welshathletics.org/cy/page/careers

**Dyddiad cau ceisiadau:** Dydd Sul 26ain Ebrill 2026

**Cyfweliadau:** w/c 11eg Mai 2026

Rydym yn cadw'r hawl i gau swyddi gwag cyn y dyddiad cau penodedig os derbynnir nifer fawr o geisiadau. Gwnewch gais yn gynnar i osgoi cael eich siomi.

LISTEN ENGAGE REPRESENT

WELSH ATHLETICS
ATHLETAU CYMRU

**Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant**

Rydym yn penodi gyda system agored a gonest sy'n seiliedig ar yr arferion gorau presennol ac os oes arnoch chi angen unrhyw gymorth i gwblhau eich cais neu os oes arnoch chi angen fformat gwahanol, cysylltwch ag: Eleanor Cartlidge **eleleanor.cartlidge@welshathletics.org**

Sylwer os gwelwch yn dda: Rydym yn ymrwymo i **ddiogelu** a hyrwyddo **lles** plant a phobl ifanc ac yn disgwyl i'n holl staff a'n gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn.

Rydym yn ymrwymo i **gynhwysiant** ac yn croesawu ysbryd pob deddfwriaeth gysylltiedig â **chydraddoldeb**. Lle bo modd, byddwn yn barod bob amser i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau hygyrchedd i unrhyw un sydd angen hynny.

Nid oes modd i ni gynnig nawdd fisa ac mae'n rhaid bod gan bob ymgeisydd **yr hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig** er mwyn gwneud cais a chael eich ystyried ar gyfer y swydd hon. Os nad ydych chi'n un o wladolion y Deyrnas Unedig, rhaid bod gennych chi fisa gwaith priodol er mwyn cael eich cyflogi. Bydd eich **data personol** yn cael ei gadw am hyd at ddwy flynedd a'i ddefnyddio i ddibenion recriwtio Athletau Cymru yn unig, er mwyn rhoi gwybod i chi am swyddi gwag newydd neu caiff ei brosesu'n unol â swydd wag y byddwch yn gwneud cais amdani yn y dyfodol.

Ni fyddwn byth yn rhoi eich manylion i drydydd parti. I ddysgu mwy am ein dull o barchu eich preifatrwydd, ewch i'n tudalen ar Breifatrwydd, Cwcis a Hawlfraint'. I gael mwy o wybodaeth am Athletau Cymru, ewch i'n gwefan a thudalen 'Amdanom Ni'.